




Caneuon a Rhigymau


Songs and Rhymes



Croeso! Welcome!

Bore da, Bore da,
Sut wyt ti? Sut wyt ti?
Da iawn diolch, da iawn diolch!
Bore da, Bore Da!

Prynhawn da, Prynhawn da,
Sut wyt ti? Sut wyt ti?
Da iawn diolch, Da iawn diolch!
Prynhawn da, Prynhawn da!





Hwyl Fawr Ffrindiau

Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Mae'n amser dweud hwyl fawr.

Tw-da-lw a bant â ni,
bant â ni, bant â ni,
Tw-da-lw a bant â ni,
Mae'n amser dweud hwyl fawr.

Jac y Do

Mi welais Jac y Do,
Yn eistedd ar ben to,
Het wen ar ei ben,
A dwy goes bren,
Ho Ho Ho Ho Ho Ho.

Yn canu Ho Ho Ho,
Yn canu Ho Ho Ho,
Het wen ar ei ben,
A dwy goes bren,
Ho Ho Ho Ho Ho Ho.



Dau Gi Bach

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd ar bob troed,
Dau gi bach yn dŵad adref,
Wedi colli un o'u 'sgidiau,
Dau gi bach.





Troi ein dwylo

Troi ein dwylo, Troi ein dwylo,
Troi a throi a throi fel hyn.

Curo'n dwylo, Curo'n dwylo,
Clap a chlap a chlap fel hyn.

Chwifio'n dwylo, Chwifio'n dwylo,
Chwifio, chwifio, lan fel hyn.

Tap, Tap

Tap, tap, un dau tri,
Tap, tap, un dau tri,
Tap, tap, un dau tri,
Troi a throi ein dwylo.

Clap, clap, un dau tri,
Clap, clap, un dau tri,
Clap, clap, un dau tri,
Troi a throi ein dwylo.

Stamp, Stamp, un dau tri,
Stamp, Stamp, un dau tri,
Stamp, Stamp, un dau tri,
Troi a throi ein dwylo.

SWS, SWS, un dau tri,
SWS, SWS, un dau tri,
SWS, SWS, un dau tri,
Troi a throi ein dwylo.





Gee geffyl bach


Gee geffyl bach, yn cario ni'n dau,
Dros y mynydd i hela cnau.
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic-
Cwmpo ni'n dau...
wel dyna'i chi dric!

Dwylo dros y llygaid

Dwylo dros y llygaid,
Dwylo dros y llygaid,
Dwylo dros y llygaid,
Ac yna dweud pi-po!



PI-PO!





Adeiladu tŷ bach

Adeiladu tŷ bach un, dau, tri
To ar ei ben a dyna ni.



Sbio mewn drwy'r ffenest, beth welwch chi?
Llygoden fach yn cysgu, ust da chi!

Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,
Llygoden fach yn deffro!
I ffwrdd â hi!



Pen, ysgwyddau, coesau, traed

Pen, ysgwyddau, coesau, traed
coesau, traed.

Pen, ysgwyddau, coesau, traed
coesau, traed.

Llygaid, clustiau, trwyn a cheg.

Pen, ysgwyddau, coesau, traed
coesau, traed.



Un bys, dau fys, tri bys

Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio,
Pedwar bys, pum bys,
chwe bys yn dawnsio,
Saith bys, wyth bys,
naw bys yn dawnsio,
Deg bys yn dawnsio'n llon.

**DEG BYS YN
DAWNSIO'N LLON!**




Fferm Datcu

Awn am dro i fferm Datcu,
i ai i ai o!

Ac ar y fferm roedd ganddo fuwch
i ai i ai o!

Gyda Mw-mw yma,
a Mw-mw draw,
Mw Mw Mw Mw ar bob llaw.
Awn am dro i fferm Datcu,
i ai i ai o!



Lliwiau'r Enfys

Coch a melyn a fioled a glas,
porffor ac oren a gwyrdd.
Dyma lliwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys hardd.






Yr Eliffant Mawr a'r Cangarw

Yr eliffant mawr a'r cangarw
i mewn i'r arch â nhw.

Ni welsoch chi'r 'rioed y fath halibalw,
i mewn i'r arch â nhw.

Ribidires ribidires i mewn i'r arch â nhw,
Ribidires ribidires i mewn i'r arch â nhw.




Dringodd y prycopyn

Dringodd y prycopyn,
i fyny'r biben hir,
Y glaw mawr a ddaeth
a'i olchi nôl i'r tir.
Yna ddaeth yr haul a
sychu'r glaw i gyd,
a dringodd y prycopyn
y biben ar ei hyd.

Hicori, dicori, doc

Hicori, dicori, doc,
Llygoden lan y cloc,
Mae'n taro un (dau, tri)
I lawr â hi,
Hicori, dicori doc.



Tri Mwnci Bach


Tri mwnci bach yn
neidio lan a lawr.
Un aeth i fyny a
crash lawr i'r llawr.
Ffoniodd Mam y doctor,
a gweiddi'n uchel iawn;
dim rhagor o fwncïod
yn neidio lan a lawr.



Dau fwnci bach...

Un mwnci bach...





Dacw Mam yn dŵad

Dacw mam yn dŵad ar
ben y gamfa wen
rhywbeth yn ei ffedog
a phiser ar ei phen
Y fuwch yn y beudy yn
brefu am y llo,
a'r llo'r ochr arall yn
chwarae Jim Cro

Jim Cro Crystyn
Wan, tŵ, ffôr,
a'r mochyn bach yn eistedd
mor ddel ar y stôl.





Banana

Un a dau a thri banana,
pedwar, pump a chwech banana,
saith ac wyth a naw banana,
deg banana felen.

Tri Chrocodeil

Tri chrocodeil yn nofio yn yr afon,
Tri chrocodeil yn nofio yn yr afon,
Nofiodd un o dan y dŵr - SPLASH
dim ond dau sydd ar ôl.

Dau grocodeil...
Un crocodeil...
does dim crocodeil ar ôl!



Daw Hyfryd Fis

Daw hyfryd fis,
Mehefin cyn bo hir,
a chlywir y gwcw'n
canu'n braf yn ein tir.
Braf yn ein tir,
braf yn ein tir,
gwcw, gwcw, gwcw'n
canu'n braf yn ein tir.



Fuoch chi erioed yn morio?

Fuoch chi erioed yn morio?
Wel do mewn padell ffrio;
chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man,
a dyna lle bum i'n crio.





Un llaw i fyny

Un llaw i fyny,
Un llaw i lawr,
Dwy law i fyny,
A dwy law i lawr.

Un fraich i fyny,
Un fraich i lawr,
Dwy fraich i fyny,
A dwy fraich i lawr.

Un droed i fyny,
Un droed i lawr,
Dwy droed i fyny,
A dwy droed i lawr.

Mynd ar y ceffyl

Mynd ar y ceffyl, clipidi clop,
mynd ar y ceffyl, drot, drot, drot,
lan i'r mynydd, lawr i'r cwm,
draw dros y dolydd, bwm, bwm, bwm.

Gyrru a gyrru, gyrru a gyrru,
gyrru a gyrru fel y gwynt, ow!

Mynd ar y ceffyl, clipidi clop,
mynd ar y ceffyl, drot, drot, drot,
lan i'r mynydd, lawr i'r cwm,
draw dros y dolydd, bwm, bwm, bwm.



Heno, Heno, hen blant bach

Heno, heno, hen blant bach
Heno heno, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach.

Gwely gwely, hen blant bach
Gwely gwely, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach.

'Fory 'fory, hen blant bach
'Fory 'fory, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach
Dime dime dime, hen blant bach.



Bwrw glaw

Bwrw glaw yn sobor iawn
wel dyma b'nawn anghynnes,
'mochel dan yr ymbarél
a cherdded fel brenhines.



Bwgan Brain

Dwy fraich ar led,
cetyn yn ei geg,
trwyn hir a main,
dyma'r bwgan brain.

Het ddu Tad-cu,
Siwmpwr goch Mam-gu,
trwyn hir a main,
dyma'r bwgan brain.

Mam wnaeth got i mi

Gofynnais i Titw Las, le ges di got
mor las? A dyma'r ateb ges i...
Mam wnaeth got i mi, o ddarn o'r
awyr fri, pan oedd hi'n ganol haf.

Gofynnais i Robin Goch, le ges di
got mor goch? A dyma'r ateb ges i...
Mam wnaeth got i mi, o ddarn o'r
awyr fri, pan oedd hi'n machlud haul.

Gofynnais i 'deryn du, le ges di got
mor ddu? A dyma'r ateb ges i...
Mam wnaeth got i mi, o ddarn o'r
awyr fri, pan oedd hi'n ganol nos.



Fi yw'r crwban/ceffyl

Fi yw'r crwban, fi yw'r crwban,
dyma fi, dyma fi.

Rwyf yn araf, rwyf yn araf,
dyma fi, dyma fi.

Fi yw'r ceffyl, fi yw'r ceffyl,
dyma fi, dyma fi.

Rwyf yn gyflym, rwyf yn gyflym,
dyma fi, dyma fi.



Olwynion ar y bws

Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi,
troi a throi, troi a throi.

Mae'r olwynion ar y bws yn troi a throi,
trwy y dydd.

Mae'r corn ar y bws yn mynd bip, bip, bip,
bip, bip, bip, bip, bip, bip.

Mae'r corn ar y bws yn mynd bip, bip, bip
trwy y dydd.

Mae'r weipars ar y bws yn mynd swish swish
swish, swish swish swish, swish swish swish.

Mae'r weipars ar y bws yn mynd swish
swish swish, trwy y dydd.

Mae'r plant ar y bws yn mynd lan a lawr,
lan a lawr, lan a lawr.

Mae'r plant ar y bws yn mynd lan a lawr,
trwy y dydd.





Amcanion y Fenter yw annog a chefnogi datblygiad cymunedol, ieithyddol ac economaidd er lles y cyhoedd ac i hyrwyddo addysg er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, naturiol ddwyieithog a llewyrchus.

Rydym yn gweithredu mewn ardal sy'n ymestyn o Lanybydder i Gastell Newydd Emlyn, i Gaerfyrddin, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir llungopio, recordio na atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na chwaith ei storio mewn system adalw na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd electronig na mecanyddol heb ganiatâd ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint.

Encourage and support community, linguistic and economic development for public benefit and create sustainable communities that are naturally bilingual and prosperous.

We operate in an area that extends from Llanbydder to Newcastle Emlyn, to Carmarthen, St Clears and Whitland.

All rights reserved. No part of this publication may be photocopied, recorded or otherwise reproduced, stored in a retrieval system or transmitted in any form or by any electronic or mechanical means without the prior permission of the copyright owner.



Menter Gorllewin Sir Gâr



ymholiad@msgg.cymru



@MenterGSG



01239 712 934



@Mentergsg



www.mentergorllewinsirgar.cymru

Lluniau/illustrations: Shutterstock
Vecteezy.com

